

## Holiadur Amgylchedd yr Ysgol 2020

### Gwybodaeth ac Arweiniad i Arweinwyr Arolygon Ysgol

#### LAWRLWYTHWCH A/NEU ARGRAFFU'R DDOGFEN HON AT Y DYFODOL

### Pwrpas Holiadur Amgylchedd yr Ysgol

Bydd y wybodaeth a ddarparwch yn yr holiadur yn cael ei defnyddio i:

1. Gefnogi ymchwil i wahanol agweddau o amgylchedd yr ysgol a sut mae'r amgylchedd yn dylanwadu ar iechyd a lles myfyrwyr.
2. Darparu data monitro i Gynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru (WNHSS).

Bydd yr atebion a ddarparwch yn cael eu rhannu gyda Chynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru mewn ffurflen heb fod yn ddiennw, i gefnogi cynllunio, monitro a datblygu Cynlluniau Ysgolion Iach lleol a'r rhwydwaith cenedlaethol. Mae'n bwysig bod y Rhwydwaith Ymchwil Ysgolion Iach a'r Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach yn cydweithio'n effeithiol ac effeithlon er mwyn hyrwyddo iechyd a lles ysgolion yng Nghymru. Bydd rhannu data holiadur amgylchedd yr ysgol fel hyn yn lleihau dyblygiad yr ymdrech a'r baich ar ysgolion oherwydd golyga na fydd angen i'r Rhwydwaith gasglu mwy o ddata er mwyn bodloni ei anghenion gwybodaeth. Bydd y Rhwydwaith yn cadw'r wybodaeth a ddarparwch am eich ysgol yn gwbl gyfrinachol ac ni fydd unrhyw ddata sy'n gallu cael ei gysylltu ag ysgol unigol yn cael ei gyhoeddi ar unrhyw gyfrif.

### Fformat yr holiadur

Symudwyd yr holiadur i fformat ar-lein ar gyfer 2020. Mae deg adran i'r holiadur, gyda'r rhain yn amrywio o rhwng chwech a 19 cwestiwn. Y naw adran gyntaf yw'r craidd a'r degfed yw'r atodiad ar gyfer 2020. Bob tro y bydd yr holiadur yn cael ei lenwi (bob dwy flynedd), bydd y craidd yn aros yn weddol debyg tra bydd yr atodiad yn canolbwyntio ar faes penodol yn fanwl.

Eleni, mae'r atodiad yn canolbwyntio ar fwyd a choginio yn eich ysgol, ac ar y paratodau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru 2022. Caiff y data ei rannu gyda Chynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru.

### Llenwi'r Holiadur

Mae yna un holiadur i bob ysgol a ddylai gael ei lenwi gan aelod o'r uwch dîm rheoli, neu dylai aelod o'r uwch dîm rheoli adolygu'r ymatebion cyn cyflwyno'r holiadur. Efallai bydd angen cynghori ag aelodau eraill o staff er mwyn ateb pob cwestiwn.

Gellir llenwi'r holiadur ar gyfrifiadur, llechen neu ffôn clyfar a gellir mynd ato droeon, felly nid oes rhaid ei ateb ar un cynnig.

Gallwch lenwi'r holiadur yn y Gymraeg neu'r Saesneg, trwy ddewis eich iaith o ddewis ar yr hafan dudalen. Gallwch symud rhwng ieithoedd trwy gydol yr holiadur gan ddefnyddio botwm Cymraeg / English ar frig y sgrin.

Gallwch fynd at bob adran o'r arolwg drwy dudalen y ddewislen. Bydd y ddewislen yn dangos pa adrannau sydd angen atebion a pha rai sydd wedi'u llenwi'n llawn. Gallwch lenwi'r adrannau mewn unrhyw drefn a mynd yn ôl atynt i ddiwygio atebion neu ychwanegu atynt, hyd yn oed ar ôl eu llenwi'n llawn.

Atebwch bob cwestiwn ym mhob adran a rhoi ateb ysgrifenedig lle y gofynnir am hynny. Os oes gan eich ysgol fyfyrwyr Blwyddyn 12 ac 13, gofynnwn i chi gynnwys eich polisiau ac arferion mewn perthynas â phob grŵp blwyddyn, oni bai bod y cwestiwn yn cyfeirio'n benodol at Flwyddyn 7 i 11 yn unig.

Os hoffech symud heibio i gwestiwn a dychwelyd ato maes o law, dewiswch opsiwn **'Dychwelyd i'r cwestiwn hwn maes o law'**. Os dewisir yr opsiwn hwn ar gyfer unrhyw gwestiwn mewn adran, bydd tudalen y ddewislen yn dangos bod angen atebion o hyd ar yr adran.

Ni fyddwch yn gallu cyflwyno'r holiadur hyd nes bod ymateb i bob cwestiwn, ond mae opsiwn ateb 'Ddim yn berthnasol' a/neu 'Ddim yn gwybod' i bob cwestiwn. Defnyddiwch 'Ddim yn berthnasol' os nad yw cwestiwn yn berthnasol i'ch ysgol (e.e. os nad oes gennych chweched dosbarth), neu os nad yw opsiynau'r ymateb yn disgrifio'r amgylchiadau yn eich ysgol.

Os byddwch eisiau symud yn ôl, defnyddiwch y botwm 'Blaenorol' ar waelod pob tudalen. **Peidiwch â defnyddio botwm 'yn ôl' y porwr** oherwydd bydd hwn yn mynd â chi i dudalen gwall a chewch eich cloi allan o'r holiadur am ddeng munud.

Pan fyddwch yn cyrraedd diwedd adran, fe'ch anfonir yn ôl i dudalen y ddewislen yn awtomatig. Os byddwch chi ran o'r ffordd trwy adran ond rydych eisiau dychwelyd i dudalen neu ddewislen neu adael yr holiadur, cliciwch fotwm **'Cau'r arolwg'**. Bydd hyn yn arbed unrhyw atebion a roesoch ar y dudalen honno. I ddychwelyd i dudalen y ddewislen ar unwaith neu rywbryd eto, defnyddiwch y ddolen i'ch holiadur yn yr e-bost gan Ipsos MORI. (Os byddwch yn cau ffenestr y porwr yn hytrach na defnyddio botwm **'Cau'r arolwg'**, byddwch yn colli unrhyw atebion ar y dudalen olaf yr oeddech arni ac ni fyddwch yn gallu mynd yn ôl at yr holiadur am ddeng munud.)

Bydd amser yr holiadur yn dirwyn i ben ar ôl cyfnod estynedig o ddiffyg gweithgarwch. Os bydd hyn yn digwydd, byddwch yn gallu mynd yn ôl ato o'ch dolen i'r holiadur, ond byddwch wedi colli unrhyw atebion ar y dudalen a oedd ar y sgrin pan roesoch y gorau i weithio arni.

Gallwch fynd yn ôl i mewn at yr holiadur mor aml ag y bydd angen.

### Rhannu'r holiadur gyda chydweithwyr

Gallwch rannu'r ddolen i'ch holiadur gyda chydweithwyr os ydych eisiau eu help i ateb cwestiynau penodol. Sylwch, fodd bynnag, bod yr holiadur yn gallu cael ei agor gan un person ar y tro yn unig. Os bydd ail berson yn ceisio'i agor, caiff neges am wall.

Rhowch y ddogfen hon i unrhyw gydweithiwr rydych chi'n rhannu'r ddolen gydag ef/hi. Gallwch fynd at y ddogfen hon yma: [www.shrn.org.uk/cy/hay2020](http://www.shrn.org.uk/cy/hay2020)

Os byddai'n well gennych gyfyngu ar fynediad at yr holiadur ar-lein, gallwch ddefnyddio copi print o'r holiadur i gasglu gwybodaeth gan gydweithwyr ac yna cofnodi'u hymatebion eich hun (gweler 'Defnyddio'r pdf' isod).

### Cyflwyno'ch holiadur

Pan fydd yr holl adrannau wedi'u llenwi'n llawn ac nid oes tic i unrhyw flwch 'Dychwelyd i'r cwestiwn hwn maes o law', bydd pob dolen i'r adrannau ar dudalen y ddewislen yn troi'n wyrdd a bydd botwm 'cyflwyno' yn ymddangos ar dudalen y ddewislen. Pan fyddwch wedi clicio'r botwm hwn, bydd eich atebion yn cael eu cyflwyno a'ch holiadur yn cael ei gau.

## Defnyddio'r pdf

Rydym wedi rhoi copi o'r holiadur i chi ar ffurf pdf, fel y gallwch weld cynnwys yr holiadur cyn i chi ddechrau. Diben hyn yw eich cynorthwyo i amlygu oddi wrth ba gydweithwyr y bydd angen cymorth arnoch i'w lenwi. Hefyd, gallwch ddefnyddio copi print o'r pdf i gasglu gwybodaeth gan gydweithwyr os nad ydych am rannu'r ddolen i'ch holiadur.

**Peidiwch â defnyddio copi print o'r pdf i ddychwelyd eich holiadur i ni.  
Gall data gael ei gyflwyno gan ddefnyddio'r fersiwn ar-lein yn unig.**

Mae'r pdf yn dangos pob cwestiwn, gan gynnwys y rhai a all gael ei 'hepgor' yn y fersiwn ar-lein, yn dibynnu ar yr atebion a roesoch i gwestiynau blaenorol. Mae cyfarwyddiadau hepgor wedi'u dangos yn y pdf.

Mae rhai ysgolion yn hoffi cadw copi o'u hymatebion i Holiadur Amgylchedd yr Ysgol at ddiben hunanwerthuso ac i ategu'u gweithredoedd Ysgolion Iach. Os hoffech wneud hyn, gwnewch gofnod gan ddefnyddio copi print o'r pdf, gan na fyddwn yn gallu darparu copi o'ch atebion.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Gillian neu Joan.

E-bost: [shrn@caerdydd.ac.uk](mailto:shrn@caerdydd.ac.uk)

Ffôn: 029 2087 4433

Os cewch unrhyw anawsterau technegol gyda'r holiadur ar-lein, cysylltwch ag Ipsos MORI.

E-bost: [shrn@ipsos.com](mailto:shrn@ipsos.com)

Cyflwynwch eich holiadur erbyn **5pm Dydd Gwener 6 Mawrth**.

***Diolch yn fawr.***